

Gwybodaeth Gefndir

Fel gwlad, mae Cymru ymysg yr uchaf o ran cyfraddau ailgylchu gwastraf cartref. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n ailgylchu 64% o wastraff solet trefol, sydd yn cynnwys pastig cartref a deunydd pecynnu arall. Mae targed o 70% wedi cael ei osod erbyn 2025 ond mae Llywodraeth Cymru eisiau gwneud yn well na hynny ac yn anelu at fod yn genedl Ddiwastraff erbyn 2050. Os ydym, fel cenedl, yn mynd i gyflawni hyn, mae gan bob sector rôl i'w chwarae.

Nid yw tirlenwi ar gyfer gwastraff yn opsiwn bellach. Mae'r gofod yn mynd yn brin ac mae'n rhaid datblygu ffyrdd newydd o drin gwastraff. Yn wir, mae llawer o'r gwastraff gweddilliol yr ydym yn ei greu yng Nghymru bellach yn cael ei anfon i'w losgi. Er mwyn cyrraedd y targedau diwastraff hynny, mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i leihau ac aildefnyddio gymaint ag y gallwn cyn ailgylchu.

Yn ôl y BBC¹ yn 2017, cynhyrchodd cartrefi'r DU bron 27 miliwn o dunelli o wastraff – mae hynny'n gyfwerth â 409kg y person (tua phwysau 4 panda mawr!). Daw gwastraff o sawl ffynhonnell gyda gwastraff pecynnu, plastigau untro a gwastraff bwyd gyda'r mwyaf cyffredin. Mae gwastraff bwyd yn broblem fawr gartref ac yn yr ysgol – mae Wrap Cymru yn amcangyfrif bod £550m o fwyd bwydadwy wedi cael ei daflu mewn cartrefi yng Nghymru yn 2015.



Lleihau Gwastraff mewn Ysgolion

Gall lleihau gwastraff fod yn destun sy'n rhoi boddhad mawr. Yn ogystal ag annog disgyblion i ystyried effeithiau ehangach eu harferion prynu, gallant ganfod gwerth mewn rhai mathau o



wastraff. Er mwyn canfod y ffordd orau o leihau'r gwastraff y mae eich ysgol yn ei gynhyrchu, dylech ystyried ffyrdd o leihau pa eitemau sydd yn dod i mewn i'ch ysgol yn y lle cyntaf. Gall lleihau gwastraff gynnwys adolygu'r mathau o adnoddau y mae ysgolion yn eu prynu ac ystyried ffyrdd o gwtogi. Os na allwch ei leihau, allwch chi ei aildefnyddio? Bydd llawer o eitemau y byddwch yn gallu eu haildefnyddio fel papur a deunydd pecynnu, amlenni a bocsys cardfwrdd. Yn olaf, os nad yw aildefnyddio yn opsiwn, all y gwastraff gael ei ailgylchu? Mae rhai mathau o wastraff yn cynnwys deunydd crai y gellir eu hailgylchu'n hawdd heb ddefnyddio gormod o ynni. Efallai y gallwch wneud arian i'r ysgol trwy werthu'r eitemau hyn neu gallech fod yn hyb a chasglu rhai o'r eitemau hynny sydd yn anodd eu hailgylchu o'ch cymuned gyfan.

¹ <https://www.bbc.co.uk/news/science-environment-49827945>

Safbwynt Hinsawdd

Mae'n bwysig iawn ein bod yn ystyried y defnydd o ynni ymgorfforedig yn yr holl bethau yr ydym yn eu defnyddio. Bydd bron pob cynnyrch y byddwn yn ei ddefnyddio mewn diwrnod yn rhyddhau allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol ac anuniongyrchol fel carbon deuocsid a methan i'r atmosffer, sy'n effeithio ar ein planed. Mae sbwriel a gwastraff sydd yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn cynrychioli swm sylweddol o nwyon tŷ gwydr sydd eisoes wedi eu rhyddhau i'r atmosffer.

Cymerwch fwyd fel enghraifft. Mae WRAP yn amcangyfrif, bob blwyddyn yn y DU, ein bod yn taflu 6.5 miliwn o dunelli o fwyd, 4.3 miliwn ohono sydd yn dal yn fwytadwy! Mae'r holl fwyd hynny, p'un ai'n basta ychwanegol ar ein plât ar ddiwedd ein pryd neu'r crystiau yr ydym yn torri oddi ar ein brechdanau, yn cynrychioli gwastraff ynni a dŵr a ddefnyddiwyd i wrteithio, tyfu, cludo a phecynnu'r bwyd yn y lle cyntaf. Mae hynny nid yn unig yn ddrwg i'n hinsawdd ond bydd unrhyw fwyd yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi yn pydru ac yn creu methan – nwy tŷ gwydr sydd yn waeth hyd yn oed na charbon deuocsid! Daw bron chwarter (24%) yr allyriadau bwyd o fwyd sydd wedi mynd ar goll yn y gadwyn gyflenwi neu wedi ei wastraffu gennym ni fel defnyddwyr².



² <https://ourworldindata.org/food-waste-emissions> (defnyddiwyd 27/5/20)

Gweithgaredd

Cydwybod Ffasiwn



Cyfnod Allweddol 2

Nodau Byd-eang:

11 – Dinasoedd a Chymunedau Cynaliadwy

12 – Defnydd a Chynhyrchu Cyfrifol

13 – Gweithredu ar y Newid yn yr Hinsawdd

Nod – Codi ymwybyddiaeth o faterion gwastraff yn y diwydiant dillad a ffasiwn

Amcanion:

- Archwilio rhai o'r ffeithiau sydd yn gysylltiedig â ffasiwn cyflym
- Deall o ble mae'r deunyddiau ar gyfer ein dillad yn dod a sut maent yn cael eu gwneud
- Datblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd lleihau, ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu.
- Creu Eco-weithredoedd yn ymwneud â ffasiwn i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r gwastraff yr ydym yn ei greu.

Adnoddau:

- Cyfrifiaduron pen desg/Gliniaduron/I-Padiau
- Papur/Pennau/pensiliau
- Taflen waith 1 – Cwblhewch y frawddeg
- Taflen waith 2 – Taflen waith yn cyd-fynd â'r adnodd (gallai hyn gael ei wneud gydag eitemau go iawn yn hytrach na'r delweddau)

Gwybodaeth Gefndir am y Gweithgaredd:

P'un ai eich bod yn eu gwisgo i ddatgan rhywbeth neu i gadw'n gynnes, mae dillad yn hanfodol i bawb. Mae cartref cyffredin yn gwario tua £1,700 y flwyddyn yn prynu dillad, yn ail i fwyd a diod yn unig o ran gwariant ar nwyddau traul. Mae ffasiwn a dillad y tymor yn newid yn barhaus, gyda dylunwyr yn creu syniadau newydd neu wedi eu hailwampio ar gyfer yr hyn y dylem fod yn ei wisgo i 'gyd-fynd â'r ffasiwn'. Yn hyn o beth rydym yn byw mewn cymdeithas o 'Ffasiwn Cyflym' lle mae cypyrddau dillad yn newid yn barhaus, ac mae dillad yn cael eu taflu allan i wneud lle ar gyfer rhai newydd. Yn anffodus, mae'r Ffasiwn Cyflym hwn yn cael effaith hynod o negyddol ar ein planed. Amcangyfrifir bod bron hanner y 'Ffasiwn Cyflym' yn cael ei waredu mewn llai na blwyddyn a bod traean y dillad mewn cartref cyffredin heb gael eu gwisgo yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae effaith amgylcheddol dillad yn uchel iawn, o gynhyrchu'r defnydd i gludo ac yna gwaredu ar y diwedd.



Mae'r gweithgaredd hwn yn edrych ar y man lle daw'r dillad yr ydym yn eu prynu ac effaith amgylcheddol a chymdeithasol y masnachu byd-eang enfawr hwn, gan herio, gobeithio, ein harferion siopa arferol.

Gweithgaredd:

1. Mewn paruau defnyddiwch daflen waith 1 i baru'r sanau a chwblhau'r brawddegau yn ymwneud â ffasiwn a'r amgylchedd. Gwiriwch eich atebion yn erbyn y daflen atebion. Fel dosbarth, trafodwch eich canfyddiadau. A oes unrhyw ffeithiau ffasiwn sy'n eich synnu? (gellir rhoi'r daflen waith hon ar sgrîn gyda'r atebion wedi eu hysgrifennu yn y llyfrau gwaith yn lle taflenni gwaith wedi eu hargraffu)
2. Gofynnwch i bob aelod o'r dosbarth ddewis un dilledyn, naill ai un y maent yn ei wisgo neu rywbeth o'u cartref. Edrychwch ar y label a nodwch y defnydd a ddefnyddiwyd i wneud yr eitem. Crëwch siart dosbarth o'r defnyddiau ac amlygu'r defnydd mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd.
3. Edrychwch ar y rhestr. Allwch chi nodi pa eitemau sydd wedi eu gwneud gan ddyn a pha eitemau sydd yn naturiol? Defnyddiwch daflen waith 2 i baru'r defnydd crai â'r cynnyrch gorffenedig.
4. Rhannwch y ffaith ganlynol gyda'ch dosbarth: 'Mae tyfu cotwm yn defnyddio llawer iawn o ddŵr ac mae'n achosi moroedd mewndirol i sychu (e.e Môr Aral). Mae gwneud 1 crys-t cotwm yn defnyddio'r un faint o ddŵr ag y byddai person yn ei yfed mewn 3 blynedd (2720 litr). Faint o ddŵr a ddefnyddiwyd i wneud yr holl grysau-t yn y dosbarth/ysgol/yn eich cwpwrdd dillad gartref?
5. Gyda thecstilïau'n gyfrifol am fwy o nwyon tŷ gwydr na'r holl deithiau awyren a chludeant morol, mae angen i ni edrych ar ein patrymau defnyddio. Gan ddefnyddio'r wybodaeth, rydych bellach yn gwybod mwy am ffasiwn a'r amgylchedd, allwch chi greu ymgyrch hysbysebu yn annog mwy o bobl i leihau, aildefnyddio a thrwsio eu dillad yn lle prynu rhai newydd o hyd. Efallai y gallwch ddwyn perswâd ar bawb yn eich ysgol i wneud rhywbeth o eitemau wedi eu hailgylchu ar gyfer eich diwrnod gwisg ffansi nesaf.



Syniadau Ymestyn:

A yw rhai defnyddiau'n well na'i gilydd? Gan ddefnyddio eich rhestr o ddeunyddiau gallwch ganfod y pethau sydd yn dda ac yn ddrwg am bob defnydd a phenderfynu pa ddefnydd sydd orau i'r amgylchedd yn eich barn chi?

Allwch chi ganfod sut le yw fferm neu ffatri tyfwr cotwm yn un o'r gwledydd lle daeth eich dillad? Faint o gynnyrch cotwm sydd yn rhai masnach deg y gallwch chi ddod o hyd iddynt yn eich siopau lleol?

Taflen waith 1 – Paru brawddegau

Allwch chi baru dechrau'r frawddeg â'r diwedd cywir a nodi rhai ffeithiau pwysig am ffasiwn?

Rhagwelir y bydd y defnydd cyffredinol o ddillad.....

Byddai crys-t gwerth £22 ond £1.20 yn ddrutach.....

Mae maint y dŵr a ddefnyddir i gynhyrchu dillad bob blwyddyn.....

Gyda 70% o'r holl ddillad wedi eu gwneud o gotwm

Gwerth cyfartalog y dillad yn ein cartrefi yw £4000.....


Mae bron tair rhan o bump o'r holl ddillad sy'n cael eu cynhyrchu yn cael eu hanfon i losgwyr neu safleoedd tirlenwi.....

Aeth cynhyrchiant blynyddol dillad uwchlaw 100 biliwn am y tro cyntaf yn 2014.....


Mae llai nag 1% o'r defnydd a ddefnyddir i wneud dillad

Mae 20% o lygredd dŵr yn fyd-eang.....


Prynwyd 1,130,000 o dunelli o ddillad yn 2016,



..... gan arwain at bron 14 eitem ar gyfer pob person ar y ddaear.




..... dim ond 1% o ddillad cotwm sydd yn rhai Masnach Deg.




..... ond dim ond 30% ohonynt sydd wedi cael eu gwisgo yn y flwyddyn ddiwethaf.




..... yn cael ei ailgylchu i wneud dillad newydd




..... pe byddai cyflog y gweithiwr sy'n ei wneud yn cael ei ddyblu.




..... o fewn blwyddyn o gael eu gwneud.



..... wedi cynyddu 63% yn 2030.



..... ar hyn o bryd tua 79 biliwn o fetrau ciwbig.



..... mae hynny'n gweithio allan i fod yn 17.21kg ar gyfer pob person



..... yn dod o liwio a thrin textiliau.

Taflen waith 1 – Taflen atebion

1. Mae llai nag 1% o'r defnydd a ddefnyddir i wneud dillad yn cael ei ailgylchu'n ddiillad newydd
Yn rhannol am ei fod yn anodd iawn tynnu defnydd, yn arbennig o ddefnydd cymysg
2. Rhagwelir y bydd y defnydd cyffredinol o ddiillad wedi cynyddu 63% yn 2030.
Mae hynny'n gyfwerth â 500 biliwn o fwy o grysau-t. Pum can biliwn o grysau-t!
3. Maint y **dŵr** a ddefnyddir wrth gynhyrchu dillad bob blwyddyn ar hyn o bryd yw tua 79 biliwn o fetrau ciwbig.
Neu 32 miliwn o byllau nofio Olympaidd.
4. Byddai crys-t gwerth £22 ond £1.20 yn ddrutach pe byddai cyflog y gweithiwr sy'n ei wneud yn cael ei ddyblu.
Pwy na fyddai eisiau talu hynny?
5. Gyda 70% o'r holl ddiillad wedi eu gwneud o gotwm, dim ond 1% o ddiillad cotwm sydd yn rhai Masnach Deg.
6. Gwerth cyfartalog y dillad yn ein cartrefi yw £4000 ond dim ond 30% ohonynt sydd wedi cael eu gwisgo yn y flwyddyn ddiwethaf.
Amcangyfrifir mai cost y dillad hyn sydd heb eu defnyddio yn y DU yw tua £30 biliwn
7. Mae bron tair rhan o bump o'r holl ddiillad sy'n cael eu cynhyrchu yn cael eu hanfon i losgwyr neu safleoedd tirlenwi o fewn blwyddyn o gael eu gwneud.
Mae'r Almaen yn perfformio'n well na'r rhan fwyaf o wledydd trwy gasglu bron tri chwarter o'r holl ddiillad sydd wedi eu defnyddio, gan aildefnyddio hanner ac ailgylchu chwarter. Mewn manau eraill, mae'r cyfraddau casglu yn llawer is: 15% yn yr Unol Daleithiau, 12% yn Japan, a 10% yn Tsieina. Mae llond un lori sbwriel o decstiliau yn cael ei anfon i safle tirlenwi neu ei losgi bob eiliad.
8. Aeth cynhyrchiant blynyddol dillad y tu hwnt i 100 biliwn am y tro cyntaf yn 2014 gan arwain at bron 14 o eitemau ar gyfer pob person ar y ddaear.
9. Daw 20% o lygredd **dŵr** diwydiannol yn fyd-eang o liwio a thrin tecstiliau
10. Prynwyd 1,130,000 o dunelli o ddiillad yn y DU yn 2016. Mae hynny'n gweithio allan i fod yn 17.21kg ar gyfer pob person (Allwch chi ddod o hyd i bethau yn yr ystafell a'u pwyso i wneud 17.2 kg?)

Taflen waith 2

Naturiol neu synthetig. Allwch chi baru'r defnydd crai â'r cynnyrch terfynol?



Crys Polo Cotwm



Tei sidan



Bag lledr



Siaced polyester



Siwmpwr wllân



Teits neilon



Hosan fambŵ

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Dibenion:

- Dinasyddion moesegol, gwybodus Cymru a'r byd.

Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Dyniaethau

Datganiadau am yr hyn sy'n bwysig:

- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd y mae'r ddynoliaeth yn eu hwynebu ac yn gallu gweithredu'n ystyriol ac yn foesegol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol ac yn ddeinamig, wedi ei ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Datganiadau am yr hyn sy'n bwysig:

- Mae'r byd o'n hamgylch yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mathemateg a Rhifedd

Datganiadau am yr hyn sy'n bwysig:

- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datganiadau am yr hyn sy'n bwysig:

- Mae mynegi ein hunain trwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu

